Hawdd ei Ddeall

Abertawe Hawliau Dynol | Swansea Human Rights

# Hawliau dynol a chydraddoldeb

## Ein cynlluniau ar gyfer 2024 i 2028

Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan **Gyngor Abertawe**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol Cyngor a Sir Abertawe, 2024-2028'.**

**Ebrill 2024**

Cyngor Abertawe Swansea Council

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae'r ddogfen yma'n hawdd ei deall. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **print glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae'n dweud beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 32**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Abertawe**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.abertawe.gov.uk

**Ffôn**: 01792 636000

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen yma'n Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn Hawdd ei Ddeall yma, cliciwch yn y fan hyn.

Rhif Trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Ynglŷn â'r cynllun yma** .......... 4

**Deddfau a gwerthoedd** .......... 6

**Ynglŷn ag Abertawe** .......... 12

**Sut y gwnaethon ni'r cynllun hwn** .......... 17


**Ein nodau** .......... 21

**Edrych sut hwyl rydyn ni'n ei chael** .......... 31

**Geiriau anodd** .......... 35

# Ynglŷn â'r cynllun yma

Cyngor Abertawe ydyn ni.




Rydyn ni wedi rhoi ein cynlluniau ar gyfer **hawliau dynol** a **chydraddoldeb** gyda'i gilydd am y tro cyntaf.




Mae **hawliau dynol** yn hawliau sydd gan bob person. Fel yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg.



Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg. A chael yr un cyfleoedd i wneud yn dda mewn bywyd.




Bydd y cynllun yma'n dangos sut y byddwn ni'n cefnogi **hawliau dynol** a **chydraddoldeb**.

## Mae Abertawe yn Ddinas Hawliau Dynol



Yn 2022 fe weithion ni gyda'n **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** a'r gymuned. Yn Rhagfyr 2022 daeth Abertawe yn Ddinas Hawliau Dynol.



Rydyn ni'n gweithio i amddiffyn a pharchu hawliau pawb.



Rydyn ni'n gwneud **hawliau dynol** yn rhan fawr o bopeth rydyn ni'n wneud.

## Cefnogi cynlluniau




Mae'r cynllun yma'n cysylltu â llawer o feysydd eraill yn ein gwaith. I weld ein cynlluniau a'n polisïau eraill ewch i'n gwefan.

# Deddfau a gwerthoedd

## Deddfau




Wrth ysgrifennu'r cynllun yma fe feddylion ni am ddeddfau pwysig ar gyfer **cydraddoldeb** a **hawliau dynol**.

### Deddf Cydraddoldeb 2010



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn amddiffyn pobl sydd â **nodweddion gwarchodedig**.

Mae pobl sydd â **nodweddion gwarchodedig** yn grwpiau o bobl sy'n gallu cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Rhywedd
- Disgwyl babi neu fod ganddyn nhw fabi
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Bod yn briod neu fod mewn partneriaeth sifil.



Mae yn erbyn y gyfraith i drin rhywun yn wael am y rhesymau hyn.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus



Mae hyn yn rhan o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n dweud bod yn rhaid i ni feddwl am degwch, **cydraddoldeb** a phobl yn cyd-dynnu'n dda.

**Mae'n rhaid i ni weithredu er mwyn:**



- Gwneud yn siŵr bod neb yn cael ei drin yn annheg neu'n cael ei fwlio.



- Helpu pawb i gael yr un cyfleoedd i wneud yn dda mewn bywyd, pwy bynnag ydyn nhw.



- Helpu gwahanol grwpiau o bobl i gyd-dynnu'n dda â'i gilydd.



Mae'r ddeddf yn dweud, er mwyn bod yn deg, y gall rhai pobl gael help ychwanegol weithiau.




Gallwch gael mwy o wybodaeth yn [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011].




## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae hyn ynglŷn â gwneud pethau'n well ar gyfer pobl a'r blaned, nawr ac yn y dyfodol.




Rydyn ni'n gweithio tuag at saith nod llesiant i wneud Cymru'n lle bendigedig i fyw a gweithio ynddo.




Rydyn ni'n gwneud ein nodau ein hunain i gyd-fynd â'r rhain a'u cynnwys yn ein yn ein prif gynlluniau.

## Deddf Hawliau Dynol




Mae Deddf Hawliau Dynol yn amddiffyn ein **hawliau dynol**. Mae gan bob person **hawliau dynol**. Ni all neb eu cymryd oddi arnoch chi.



Weithiau, gall rhai o'ch hawliau gael eu cyfyngu i'ch cadw chi a phobl eraill yn ddiogel.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn parchu ac yn amddiffyn eich hawliau.

# Ein gwerthoedd




Y rhain yw'r pethau sy'n bwysig i ni. Rydyn ni'n meddwl amdanyn nhw yn yr holl waith rydyn ni'n wneud:



- Rydyn ni'n meddwl am **hawliau dynol** pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau.



- Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael dweud ei farn, ac rydyn ni'n gwrando arnoch chi.



- Rydyn ni'n helpu pobl i wybod am eu hawliau a'u defnyddio.



- Rydyn ni'n cofnodi ac yn dangos sut rydyn ni'n meddwl am **hawliau dynol** yn ein penderfyniadau.






- Rydyn ni'n dweud wrthych chi pa mor dda rydyn ni'n amddiffyn eich hawliau.



- Rydyn ni'n gweithio i roi'r un cyfle i bawb i ddefnyddio eu hawliau.

# Ynglŷn ag Abertawe



Mae Abertawe yn gartref i dros 238 mil o bobl.



Mae gennym ni 75 o Gynghorwyr a thua 11 mil o staff.



Mae **cydraddoldeb** yn bwysig i ni. Mae pob aelod newydd o staff yn dysgu amdano. Mae staff yn gorfod gwneud yr hyfforddiant yma bob tair blynedd.




Rydyn ni'n diweddaru'r hyfforddiant yma bob tair blynedd.



Rydyn ni'n edrych pa mor **amrywiol** yw Abertawe trwy arolygon ac adroddiadau.



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd.
- Yn dda am wahanol bethau.
- Yn wahanol o ran oed.
- Yn credu mewn gwahanol bethau.

# Beth ddywedodd arolwg Cyfrifiad mawr 2021 wrthyn ni




**Oed**

Over 1 in 10 people are 16 to 24 years old. 2 in 10 people are 65 years old and over.



**Anabledd**

Mae 2 o bob 10 o bobl yn anabl.



**Hunaniaeth rhywedd**

Mae dros 800 o bobl â rhywedd sy'n wahanol i'r un a nodwyd ar eu cyfer pan gawson nhw eu geni.



## Bod yn briod neu fod mewn partneriaeth sifil

Mae 4 o bob 10 o oedolion sydd heb briodi erioed nac wedi cofrestru partneriaeth sifil.



## Disgwyl babi neu fod ganddyn nhw fabi

Mae nifer y babanod newydd wedi mynd i lawr yn Abertawe dros y pum mlynedd diwethaf.

## Hil



Mae gennym ni fwy o bobl mewn grwpiau ethnig sydd heb fod yn wyn nag mewn unrhyw ran arall o Gymru. Roedd bron i 3000 o bobl yn dweud eu bod yn Bangladeshaidd.



## Crefydd neu Gred

Mae tua 4 o bob 10 o bobl yn dweud eu bod yn Gristion. Roedd nifer y bobl o grefyddau eraill a phobl sydd heb grefydd wedi codi.



## Rhyw

Mae mwy o fechgyn nag o ferched dan 15 oed. Mae nifer y dynion a'r menywod rhwng 16 a 64 yn gyfartal. Mae mwy o fenywod nag o ddynion dros 65 oed.



## Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae 3 o bob 100 o bobl dros 16 oed yn uniaethu fel **LHDTC+**.

Mae **LHDTC+** yn meddwl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Cwiar a grwpiau eraill. Mae'n ymwneud â rhywioldeb a phwy y mae pobl yn cael eu denu atyn nhw.




Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adolygiad o Ystadegau Cydraddoldeb – Abertawe.

# Sut y gwnaethon ni'r cynllun hwn



Gweithiodd **Bwrdd Cydraddoldeb Strategol a Chenedlaethau'r Dyfodol** ar wneud y cynllun hwn. Maen nhw'n gwneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'n dyletswyddau **cydraddoldeb** a lles yn y dyfodol.

**Cytunon ni i:**

- Ddechrau siarad am y cynllun yn fuan a dal ati i siarad amdano



- Dysgu oddi wrth bethau rydyn ni wedi siarad amdanyn nhw o'r blaen.
- Bod yn glir ac yn onest.



- Defnyddio gwybodaeth sydd gennym yn barod.
- Meddwl am ein cyllideb.
- Edrych sut hwyl rydyn ni'n gael yn rheolaidd.

## Cychwyn arni



Cawson ni sesiynau ac arolygon ar-lein i glywed beth y mae pobl yn feddwl am **gydraddoldeb**.



Siaradon ni â grwpiau yn Abertawe fel:

- Fforwm **LHDTC+**
- Grŵp Anableddau
- Grwpiau **Ffoaduriaid**. Mae ffoaduriaid yn bobl sydd wedi gorfod gadael eu gwlad i aros yn ddiogel.

## Y pethau ddysgon ni

**Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod yn poeni am:**

- **Wahaniaethu**



**Gwahaniaethu** ydy pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oed, eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd neu eich hunaniaeth rywiol.



- Tlodi
- Tai



- Bywyd cymunedol



- Cludiant
- Gwaith



- Addysg



- Gofal cymdeithasol
- Iechyd




- Mynediad i’r rhyngrwyd

# Edrych yn ôl




Edrychon ni ar drafodaethau ac arolygon am **gydraddoldeb** ac **amrywiaeth**.



Roedd hyn yn cynnwys:

- **Adroddiad Ymgysylltu Hawliau Dynol Abertawe 2022**
- **Canlyniadau Ymgynghoriad Ein Cynllun Corfforaethol 2023**
- **Arolwg Preswylwyr 2024**
- **A yw Cymru'n Decach? Adroddiad 2023**
- **Data Cyfrifiad 2021**



Roedd hyn i gyd wedi ein helpu i wneud ein cynllun a'i wella.

# Ein nodau

Ein nodau **hawliau dynol** a **chydraddoldeb** ar gyfer 2024 i 2028 ydy:



- Lleihau tlodi.



- Helpu plant a theuluoedd.



- Brwydro'n erbyn **gwahaniaethu**.



- Lleihau **cam-drin domestig** a thrais.

Mae **cam-drin domestig** yn cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n gallu cael ei wneud gan bartner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu.



- Hyrwyddo **cydraddoldeb** a **hawliau dynol**.



- Cefnogi tîm ein staff.

# Nod 1. Lleihau Tlodi



Mae arnon ni eisiau delio â'r rhesymau pam nad oes gan bobl ddigon o arian. Mae arnon ni eisiau helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd.

**Er mwyn gwneud hyn byddwn ni'n:**




- Gwneud yn siŵr bod ein hysgolion yn rhoi help ychwanegol i blant o deuluoedd sydd â llai o arian.



- Dilyn ein cynllun i rwystro tlodi rhag brifo pobl a'u cymunedau.



- Cael llawer o ddigwyddiadau celfyddyd, chwaraeon a hanes y gall pawb gymryd rhan.



- Adeiladu mwy o gartrefi sydd ar bobl eu hangen a chartrefi y gallan nhw eu fforddio, â help ein partneriaid tai.

# Nod 2. Helpu plant a theuluoedd



Mae arnon ni eisiau deall beth sydd ar blant a theuluoedd eu hangen. Mae arnon ni eisiau dod o hyd i ffyrdd newydd o'u helpu.

**Er mwyn gwneud hyn byddwn ni'n:**



- Gweithio gyda phobl eraill i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifainc yn byw yn ddiogel gyda'u teuluoedd. Rhoi help iddyn nhw pan fydd arnyn nhw ei angen.



- Rhoi help ychwanegol i fyfyrwyr sydd ag angen hynny yn yr ysgol.



- Gweithio gyda phobl ifainc sydd wedi bod mewn gofal. Gwneud yn siŵr ein bod yn eu helpu mewn ffordd dda.



- Gwneud newidiadau fel bo dysgwyr anabl yn dysgu yn yr ysgol heb drafferth.




- Gwneud yn siŵr bod parchu hawliau plant yn rhan arferol o'r hyn rydyn ni'n wneud.

# Nod 3. Brwydro'n erbyn Gwahaniaethu



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn cael ei drin yn deg - yn ein cymuned ac wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

**Er mwyn gwneud hyn byddwn ni'n:**




- Dilyn cynlluniau Llywodraeth Cymru i rwystro hiliaeth a helpu pobl **LHDTC+**.



- Gwneud ein gwasanaethau yn fwy hawdd i bawb ei ddefnyddio.



- Rhedeg gweithgareddau i helpu pobl yn ein cymuned i gyd-dynnu'n well â'i gilydd.



- Gweithio ar wneud ysgolion ble mae pawb yn cael ei drin yn deg ac nid yw bwlio yn iawn.




- Gweithio i rwystro **troseddau casineb** a gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n ddiogel.



**Trosedd casineb** ydy cael eich poeni neu gael rhywun yn ymosod arnoch chi oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod yn wahanol.

# Nod 4. Lleihau Cam-drin Domestig a Thrais



Mae arnon ni eisiau i bawb yn Abertawe fod yn ddiogel, yn hapus ac yn iach.

**Er mwyn gwneud hyn byddwn ni'n:**




- Dilyn cynllun i gadw pobl yn ddiogel rhag trais a rheolaeth.



- Dilyn ein cynllun i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod, **cam-drin domestig**, a **thrais rhywiol**.


Mae **trais rhywiol** yn weithred rhywiol sy'n cael ei wneud i rywun pan nad ydyn nhw'n cytuno â hynny. Mae hyn yn erbyn y gyfraith.

# Nod 5. Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol



Mae arnon ni eisiau gwneud Abertawe yn lle llawn hwyl, **amrywiol**, a diogel, sy'n deg i bawb.

**Er mwyn gwneud hyn byddwn ni'n:**



- Dysgu mwy am wahanol ddiwylliannau a helpu pawb i wneud yn dda a bod yn hapus.




- Cynnwys **hawliau dynol** ym mhopeth rydyn ni'n wneud, fel bo pawb yn gallu defnyddio eu hawliau.



- Siarad â phobl yn Abertawe i wneud yn siŵr bod ein cynlluniau a'n gwasanaethau yn iawn ar eu cyfer




- Helpu ysgolion i ddysgu Cymraeg, fel bo pobl yn gadael ysgol yn medru siarad Cymraeg yn dda.

# Nod 6. Cefnogi tîm ein staff




Mae arnon ni eisiau i'n tîm fod mor **amrywiol** â'r bobl yn ein cymuned.

**Er mwyn gwneud hyn byddwn ni'n:**



- Adrodd am y gwahaniaeth mewn tâl rhwng dynion a menywod. Gweithio tuag at ei wneud yn deg.



- Gwneud gweithle yn lle y mae pawb yn teimlo croeso, ac yn dathlu gwahaniaethau mewn pobl.



- Cael grwpiau ble mae ein staff yn gallu rhannu syniadau a helpu i wneud ein polisïau.



- Dod i adnabod ein staff yn well. Gwneud yn siŵr bod ein tîm yn edrych fel y gymuned rydyn ni'n gweithio ar ei chyfer.


# Edrych sut hwyl rydyn ni'n ei chael



Bob blwyddyn byddwn ni'n edrych i weld ydyn ni'n cyrraedd ein nodau.



Bydd ein **Bwrdd Cydraddoldebau Strategol a Chenedlaethau'r Dyfodol** yn edrych ar ein gwaith. Byddan nhw'n awgrymu ffyrdd o wneud pethau'n well.




Byddwn ni'n dweud wrth ein **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** sut mae pethau'n mynd bob tri mis.



Rydyn ni hefyd wedi cychwyn **Panel Rhanddeiliaid Hawliau Dynol**. Gallwch chi ymuno â'r grŵp yma i glywed diweddariadau a rhoi eich barn unwaith y flwyddyn.




Gallwch ymuno â hwn yn y fan hyn: https://www.abertawe.gov.uk/panelhawliaudynol

# Asesiadau Effaith Integredig



Rydyn ni'n edrych sut y gall ein dewisiadau effeithio ar bobl sydd â **nodweddion gwarchodedig**.




Rydyn ni'n edrych ar hyn trwy wneud **Asesiadau Effaith Integredig**.



Rydyn ni'n edrych ar bobeth rydyn ni'n wneud neu'n bwriadu ei wneud er mwyn bod yn siŵr eu bod yn deg i bawb. Gallai hyn fod yn wasanaethau neu'n brosiectau.

## Pam rydyn ni'n gwneud Asesiadau Effaith Integredig




Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni wneud. Mae'n ein helpu i ddilyn rheolau am **gydraddoldeb** a lles.



Mae'n ein helpu i feddwl am **hawliau dynol**, hawliau plant, a sut y mae gwahanol grwpiau o bobl yn cyd-dynnu â'i gilydd.

## Pam ydy Asesiadau Integredig yn dda




- Maen nhw'n ein helpu i gadw golwg ar **hawliau dynol** a **chydraddoldeb**.



- Rydyn ni'n dysgu sut y gall yr hyn rydyn ni'n wneud effeithio ar bobl. Mae hyn yn ein helpu i wneud ein gwasanaethau yn well.

- Gallwn ddod o hyd i broblemau yn gynnar a gwneud yn siŵr ein bod ni'n deg.




- Maen nhw'n ein helpu i wneud cynlluniau sy'n gweithio ac yn parchu barn pawb.




- Maen nhw'n gwneud yn siŵr ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

## Diwygiau eraill




Os oes arnoch chi angen cael y ddogfen hon mewn ffordd arall, fel print bras:



**Ffoniwch**: 01792 636732



**Ebostiwch**:

mynediadiwasanaethau@abertawe.gov.uk



**Ysgrifennwch at**: Ystafell 205
Neuadd y Ddinas
Abertawe
SA1 4PE

# Geiriau anodd

### Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl:

- yn dod o wahanol gefndiroedd
- yn dda am wahanol bethau
- yn wahanol o ran oed
- yn credu mewn gwahanol bethau.

### Cam-drin domestig

Mae cam-drin domestig yn cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n gallu cael ei wneud gan bartner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu.

### Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg. A chael yr un cyfleoedd i wneud yn dda mewn bywyd.

### Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oed, eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd neu eich hunaniaeth rywiol.

### Hawliau dynol

Mae hawliau dynol yn hawliau sydd gan bob person. Fel yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn grwpiau o bobl sy'n gallu cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- oed
- anabledd
- rhywedd
- disgwyl babi neu fod ganddyn nhw fabi
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- bod yn briod neu fod mewn partneriaeth sifil.

## Trais rhywiol

Mae trais rhywiol yn weithred rhywiol sy'n cael ei wneud i rywun pan nad ydyn nhw'n cytuno â hynny. Mae hyn yn erbyn y gyfraith.

## Trosedd casineb

Trosedd casineb ydy cael eich poeni neu gael rhywun yn ymosod arnoch chi oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod yn wahanol.